Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams ar **13 Ionawr 2025** am 6.30 pm.

**YN BRESENNOL:-** Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gareth Parry (Cadeirydd), Cyng. Medwyn Hughes (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Delyth Russell, Cyng. Lisa Toth a'r Cyng. John Wyn Williams.

**Swyddogion:-** Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Carwyn Davies (Swyddog Gweinyddol) a Sioned Jones (Cyfieithydd) a thri aelod o'r cyhoedd.

**106/24 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Simon Hibbs, Cyng. Beverley Jones, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng. Mark Roberts a'r Cyng. Gareth Roberts.

**107/24 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim

**108/24 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

i) Cyflwynodd cynrychiolwyr Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ganfyddiadau eu hymweliad diweddar o'r enw 'Pontydd Cyfeillgarwch' ag ardal May Pen yn Jamaica, ynghyd ag aelodau eraill o Gymdeithas Jamaica Gogledd Cymru. Adroddwyd fod nifer ac argaeledd offer ymladd tân yn Jamaica yn sylweddol is nag yn y DU, er enghraifft, dim ond un injan dân (cyn-UDA) sydd gan May Pen ar gyfer ardal o faint Gwynedd gyfan, yn ogystal â diffyg offer anadlu, ac ati.
Gofynnwyd i'r Cyngor gefnogi'r prosiect, sydd eisoes wedi sicrhau un injan dân ddatblygedig o'r DU ac sydd wrthi'n ceisio sicrhau ail injan ynghyd ag offer arall.

ii) Anerchwyd y Cyngor gan Reolwr Iechyd a Lles Cyngor Gwynedd ar ddyfodol HWB Bangor. Hysbyswyd y Cyngor o'i llwyddiant yn cael rhywfaint o arian grant i helpu i sefydlu'r HWB. Soniodd am restr o ddefnyddwyr posibl sydd wedi bod yn boblogaidd mewn lleoliadau eraill yng Ngogledd Cymru. Cynigiodd y Rheolwr gynorthwyo'r Cyngor i sefydlu HWB Bangor.

**109/24 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 9 RHAGFYR 2024**

**PENDERFYNWYD:** derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2024 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

**110/24 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**

*Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod.*

Roedd adroddiad yn rhoi crynodeb byr o brosiectau a mentrau'r Cyngor wedi'i gylchredeg ymlaen llaw i'r cynghorwyr.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Dinesig sylw at bwyntiau o'i adroddiad i'r Cyngor fel a ganlyn:-

i) Mae disgwyl i arddangosfa Bangor ar Draws y Byd agor yn Storiel yn fuan. Bydd yr arddangosfa hon yn rhedeg dros y deuddeg mis nesaf a phob mis bydd manylion Bangor arall (neu weithiau 2 neu 3 o gymunedau Bangor llai) yn cael eu harddangos. Mae'r arddangosfa'n amlygu'r dylanwad y mae ein Bangor wedi'i gael ar draws y Byd ac mae'n rhan o'r dathliadau 1500.

ii) Ar y 14eg o Chwefror mae cyngerdd roc Cymraeg yn y Gadeirlan. Mae'r digwyddiad am ddim ond argymhellir archebu lle.

iii) Mae elfennau eraill o strategaeth farchnata 1500 bellach yn dod i'r amlwg, gydag adroddiadau eisoes yn ymddangos yn y Bangor Aye, Business News Wales, Herald Wales, North Wales Chronicle, a gwefannau'r Eglwys yng Nghymru a'r Brifysgol. Mae BBC 1 One Show a Heno ill dau wedi mynegi diddordeb mewn gohebu ar blannu 18,000 o Gennin Pedr wrth ddynesu at y Ddinas.

**PENDERFYNWYD:** Derbyn yr adroddiad.

**111/24 TRAFOD CYLLIDEB 2025-2026**

Cafwyd trafodaeth ynghylch adroddiad Cyllideb Cyngor Dinas 2025-2026 a oedd wedi'i gylchredeg ymlaen llaw cyn y cyfarfod. Ar ôl trafodaeth a dadl, pleidleisiwyd i ohirio'r eitem hon a threfnu cyfarfod ychwanegol o'r Cyngor, i'w gynnal ar y cyd â chyfarfod y Pwyllgor Asedau ar 27 Ionawr 2025, i hwyluso rhai newidiadau.

**PENDERFYNWYD:** Penderfynwyd gohirio hyn tan 27 Ionawr 2025.

**112/24 TRAFOD PRAESEPT 2025-2026**

Gan fod eitem 111/24 wedi'i gohirio tan 27 Ionawr 2025, ni ellid cwblhau'r eitem hon.

**PENDERFYNWYD:** Penderfynwyd gohirio'r eitem hon tan 27 Ionawr 2025.

**113/24 TRAFOD HWB CYMUNEDOL BANGOR**

Cafwyd trafodaeth ar ddyfodol HWB Bangor. Dywedwyd bod costau Caffi Deiniol yn codi gan fod Canolfan Siopa Deiniol wedi'i phrynu yn ddiweddar. Adroddwyd ymhellach, ers y cyfarfod diwethaf, y daethpwyd i'r amlwg bod gan hanner Caffi Hafan sydd ar brydles gan Gyngor Gwynedd gyfamod sy'n datgan na ellir ei ddefnyddio fel menter fasnachol. Felly, awgrymwyd

ail-leoli HWB Bangor o Gaffi Deiniol, lle mae gofyn i'r Cyngor dalu rhent, i Gaffi Hafan, y mae hanner ohono ym mherchnogaeth Cyngor y Ddinas a hanner dan brydles gan Gyngor Gwynedd, am £1 y flwyddyn. Byddai hyn yn lleihau costau ac yn caniatáu mwy o hyblygrwydd.

**PENDERFYNWYD:** adleoli HWB Bangor i Gaffi Hafan

**114/24 CYMERADWYO CANIATÂD ABSENOLDEB ESTYNEDIG CYNGHORYDD**

Adroddwyd bod y Cyng. Meic Pattison yn nesáu at y 6 mis a ganiateir ar gyfer absenoldeb o gyfarfodydd y cyngor ac, oherwydd problemau iechyd parhaus, mae wedi gofyn am gyfnod estynedig o absenoldeb er mwyn caniatáu adferiad llwyr.

**PENDERFYNWYD:** caniatáu absenoldeb estynedig i'r Cynghorydd Pattison oherwydd amgylchiadau eithriadol. Cytunwyd hefyd i anfon cerdyn gwellhad buan at y Cyng. Meic Pattison.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR